**Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**1 MAI 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Mercher 1 Mai 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Carol Ellis, Patrick Heesom, Dave Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: David Cox, David Evans, Veronica Gay a Richard Lloyd.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Bu'r Cynghorydd Chris Dolphin yn bresennol fel aelod lleol yn lle'r Cynghorydd Tudor Jones ar gyfer eitem 6.1 (059217).

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Datblygu, Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Arweinydd Tîm – Cynllunio, Uwch-gynlluniwr, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Uwch-gyfreithiwr a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 67. DATGAN CYSYLLTIAD

O ran eitem 6.1 (059217), datganodd y Cynghorydd Christine Jones gysylltiad presennol a chysylltiad sy'n rhagfarnu oherwydd bod gan aelod o'i theulu garafán ar y safle. Byddai'n ymadael â'r ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais.

## 68. SYLWADAU HWYR

Ni dderbyniwyd dim.

## 69. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2019 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai gwir a chywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 70. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni argymhellwyd gohirio'r un o'r eitemau.

**71. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau a gyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio oedd ynghlwm fel atodiad.

**72. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 14 o aelodau o'r cyhoedd ac un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 1.55pm)

**…………………………**
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i'n llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 1 MAI 2019**

| EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAMAU GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 059217 | Cyngor Cymuned Ysceifiog | Cais llawn – estyniad ar safle i garafannau teithiol a phebyll er mwyn darparu mwy o lety i dwristiaid a gwaith tirlunio cysylltiedig yn The Ridings, The Village, Babell. | Cadarnhaodd y dylai paragraff 7.16 ddweud: 'bwriedir i'r safle fod ar agor o 14 Chwefror tan 14 Ionawr y flwyddyn galendr ddilynol' yn unol ag Amod 5 ym mharagraff 2.01.<br><br>Siaradodd Mr. D. Fitzsimon yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr. B. Lewis (yr asiant) o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Chris Dolphin (ar ran yr Aelod Lleol) yn erbyn y cais.<br><br>Ni siaradodd y Cynghorydd Christine Jones am y cais, wedi iddi ddatgan cysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu, a gadawodd yr ystafell cyn y drafodaeth, gan ddychwelyd ar ôl i'r Pwyllgor benderfynu'r cais. | Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad swyddog, ar y sail ganlynol:<br><br>Mae'r estyniad ar raddfa annerbyniol; mynedfa ac allanfa aneglur a pheryglus; nid yw'n cydymffurfio â'r canllawiau ym mholisi T6; byddai'n golygu gorddefnyddio'r safle a'r fynedfa; nid yw'n gydnaws â chymeriad yr ardal. |

| EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAMAU GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 059399 | Cyngor Tref y Fflint | Cais Llawn – cynnig i godi 51 annedd gan gynnwys priffyrdd, man agored cyhoeddus, tirlunio a phob gwaith cysylltiedig yng Nghroes Atti, Ffordd Caer, Oakenholt. | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |